Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 15FED GORFFENNAF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom (I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch a ni)**


Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 08/07/22)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Rheolwr Gweithrediadau |
| Sheryl Le Bon Jones | Uwch Swyddog Gweithredol Dros Dro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Mehefin, 2022 fel rhai cywir (i ddilyn).

## 5. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 1 — 8 - 35

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau)

## 6. DATGANIAD O GYFRIFON Y BUEGC AM 2021-22 — 36 - 73

Adroddiad gan Dewi A.Morgan (Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Cyfrifydd Grwp).

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO 2022 - CYD-BWYLLGOR BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU — 74 - 85

Cyflwyniad gan Archwilio Cymru.

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

**Eitem 9** - gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

**Eitem 10** – Gan fod gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad yn gyfrinachol fel y diffinnir yn adran 100(A)3 Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan iddi gael ei darparu gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus.

Mae'n rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

## 9. PROSIECT YR YCHYDIG % OLAF - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Adroddiad i'w gylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unig.

## 10. CYTUNDEB MENTER AR Y CYD ARFAETHEDIG AR GYFER CYFLENWI EIDDO AT DDIBENION CYFLOGAETH YNG NGWYNEDD

Adroddiad i'w gylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unig.

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 24 MEHEFIN 2022

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Wrecsam) Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai), Yr Athro Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflenwi Busnes) a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Andrew Farrow (Cyngor Sir y Fflint), Richard Weight (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Sioned Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan Evans (Rheolwr Gweithrediadau) Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol), Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni), Robyn Lovelock (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), David Matthews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo),) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth – Awdurdod Lletya).

Hefyd yn bresennol – Wendy Boddington (Llywodraeth Cymru) a Darnley Read (Llywodaeth y DU)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Bu i Cyng. Dyfrig Siencyn gael ei ethol yn gadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Bu i'r Cyng. Mark Pritchard gael ei ethol yn is-gadeirydd ar gyfer 2022/23.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Charlie McCoubrey ond nodwyd fod y Cyng. Emily Owen yno yn dirprwyo ar ei ran, y Cyng. Ian Roberts, Yr Athro Iwan Davies ond nodwyd fod Paul Spencer yno yn dirprwyo ar ei ran, Yana Williams, Coleg Cambria, Neal Cockerton, Ian Bancroft a Dafydd Gibbard a nodwyd fod swyddogion yn dirprwyo ar eu rhan.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2022 fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio.

**PENDERFYNWYD**

**Ystyriwyd a nodwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22.**

**Cymeradwywyd cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdod lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan longyfarch y Cynghorwyr ar gael eu hethol yn dilyn yr etholiad. Mynegwyd fod yr adroddiad yn amlygu llwyddiannau Cynllun Twf dros y flwyddyn aeth heibio. Tynnwyd sylw at y traciwr cyflawni a oedd yn nodi ble mae pob cynllun wedi ei gyrraedd erbyn y 31 o Fawrth 2022. Amlygwyd fod rhai isafbwyntiau a sialensiau wedi bod yn ystod y flwyddyn megis Cynllun y Morlais sydd bellach yn weithredol, ond nodwyd ei fod yn cael ei ariannu drwy arian WEFO ac nid drwy'r Cynllun Twf. Tynnwyd sylw yn ogystal fod rhai cynlluniau yn rhedeg tu ôl i'w hamserlen cychwynnol.

Amlygwyd uchafbwyntiau'r flwyddyn a oedd yn cynnwys derbyn grant o £200,000 i ddatblygu technolegau carbon isel ar gyfer cartrefi, grant o £500,000 i arloesi i gynorthwyo ffermwyr i ddatgarboneiddio, a £387.000 i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Systemau Ynni Lleol Blaengar. Nodwyd fod ymweliadau wedi ei cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac eglurwyd y bydd mwy o ymweliadau yn cael ei wneud dros y flwyddyn nesaf er mwyn amlygu'r cynlluniau a'r buddion sydd i'w gweld ar draws yr ardal. Mynegwyd fod Strategaeth Ynni wedi ei gyhoeddi gyda Llywodraeth Cymru, ac eglurwyd fod mwy o waith angen ei wneud drwy weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Ynni Lleol.

Eglurwyd ym mis Rhagfyr fod Achos Busnes Llawn cyntaf wedi ei gymeradwyo sef Canolfan Brosesu Signalau Digidol ym Mhrifysgol Bangor. Tywyswyd dros rhai prosiectau penodol. Nodwyd fod llawer o waith wedi ei wneud dros y ddeuddeg mis, ac fod creu'r adroddiad wedi bod yn gyfle i adlewyrchu ar y gwaith sydd wedi ei wneud. Mynegwyd wrth symud ymlaen fod cyfle i fod yn fwy gweledol dros y sir ac i adeiladu ar y perthnasau sydd wedi eu datblygu dros y ddwy flynedd diwethaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a holwyd pwy fydd yn cyflwyno'r adroddiad

blynyddol i'r pwyllgorau craffu perthnasol yn yr awdurdodau. Mynegwyd y gall yr adroddiad gan ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Rheolwr Gweithrediadau.

- Mynegwyd yr angen i werthu'r cynlluniau ac i ledaenu'r gwaith da sy'n cael ei wneud.

## 8. ROLAU AELODAU ARWEINIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd y Rolau Arweiniol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais fel a ganlyn:

| Rhaglen | Aelod Arweiniol |
|---|---|
| Digidol | Y Cynghorydd Mark Pritchard |
| Ynni | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Tir ac Eiddo | Y Cynghorydd Jason McLellan |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| Bwyd – Amaeth a Thwristiaeth | Y Cynghorydd Charlie McCoubrey |
| Trafnidiaeth | Y Cynghorydd Ian Roberts |

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Mehefin 2020, bu i'r Bwrdd fabwysiadu strwythur llywodraethu rheoli prosiect, rhaglen a portffolio er mwyn cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan gynnwys sefydlu Byrddau Rhaglen i oruchwylio'r cyflawni gweithredol.

Roedd y strwythur llywodraethu yn cynnwys penodi Aelod Arweiniol i bob un o'r pum Bwrdd rhaglen yn ogystal â'r rôl Aelod Arweiniol ar gyfer Trafnidiaeth. Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, mae angen ail-gadarnhau'r rolau hyn.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Bwrdd wedi mabwysiadu strwythur llywodraethu rheoli prosiect, rhaglen a portffolio er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf. Eglurwyd fod y strwythur llywodraethu yn cynnwys penodi Aelod Arweiniol i bob un o'r pum Bwrdd Rhaglen yn ogystal â'r rôl Aelod Arweiniol bresennol ar gyfer trafnidiaeth.

Er mwyn sicrhau dilyniant i'r rhaglenni amlygwyd mai dim ond un newid i'r rolau fyddai canlyniad y penderfyniad a geisid, sef cadarnhau Y Cyng. Jason McLellan yn Aelod Arweiniol ar Dir ac Eiddo, gan gymryd rôl cyn-arweinydd Cyngor Sir Ddinbych.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Dangoswyd cefnogaeth i gadw at y meysydd, a nodwyd pwysigrwydd o rolau Arweiniol i wthio cynlluniau yn y blaenau ac i gynorthwyo a unrhyw broblemau gwleidyddol sydd yn codi.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:30 a daeth i ben am 15:15

---

**CADEIRYDD**

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**15 Gorffennaf 2022**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 1 (Ebrill-Mehefin) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod y Bwrdd yn nodi'r gwaith i ail-broffilio'r cynllun cyflawni fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes y Portffolio ac y bydd y wybodaeth hon ar gael i adroddiad Chwarter 2.

2.3 Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1
- Cofrestr Risg y Portffolio - Mehefin 2022

4.4. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 1 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.5. Y chwarter hwn, gwelwyd achos busnes amlinellol arall yn cael ei gymeradwyo, gyda phrosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter gan Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam, yn sicrhau cymeradwyaeth i symud i'r wedd nesaf.

4.6. Mae'r prosiect Cysylltu'r Ychydig % Olaf o fewn y Rhaglen Ddigidol wedi gwneud cynnydd sylweddol y chwarter hwn drwy gwblhau ei broses sicrwydd a sicrhau cefnogaeth gan y Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Cyflawni Busnes cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf am ystyriaeth.

4.7 Mae diweddariad Chwarter 1 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni Achos Busnes diwygiedig y Portffolio ar gyfer 2021 a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2021. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill ai yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw. Mae ariannwr y prosiect wedi gofyn am amser ychwanegol i gwblhau'r achos busnes.
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan - mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro. Mae cais wedi'i wneud am wybodaeth ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych ar sefyllfa polisi cynllunio tebygol y safle wrth symud ymlaen a'r amserlenni sydd ynghlwm â hynny.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon - caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu.
- Fferm Sero Net Llysfasi - oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2.

4.8 Disgwylir hawliad cyntaf ar gyfer costau'r prosiect DSP o fis Ionawr i ddiwedd mis Mehefin ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

Cofrestr Risg y Portffolio - Mehefin 2022

4.9 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.10 Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio diwygiedig a chamau lliniaru ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.11 Mae'r proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn.

4.12 Mae'r risg o newid gwleidyddol wedi gostwng yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae’r adroddiad yn gosod allan bod y proffil cyflawni a gwariant yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad blynyddol yr Achos Busnes Portffolio a bydd yn cael ei adrodd o Chwarter 2.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o’r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio - Mehefin 2022 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Un o brif dasgau'r Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a risgiau. Mae angen i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hun ei bod yn adlewyrchu'r statws risg yn gywir a bod camau lliniaru yn derbyn sylw.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

Mae'r adroddiad hwn yn ofynnol er mwyn gallu parhau i hawlio rhandaliadau grant y Llywodraeth, ac rwy'n fodlon fod ei gynnwys yn adlewyrchiad teg o berfformiad y Bwrdd Uchelgais dros y chwarter diwethaf. Byddaf yn parhau i gynorthwyo'r Swyddfa Rheoli Portffolio wrth reoli'r risgiau perthnasol.

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Adroddiad Perfformiad
## Chwarter 1 2022-23
## (Ebrill i Mehefin 2022)

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio ........ 3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio ........ 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol ........ 5

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel ........ 7

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel ........ 8

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth ........ 13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ........ 15

8. Tabl Cynnydd Prosiectau'r Cynllun Twf ........ 17

9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni (Mehefin 2022) ........ 18

10 -12.Piblinell Cyflawni Prosiect y Cynllun Twf, Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf, Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf ........ 19

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf ........ 20

Tud. 13

Yn ystod y chwarter hwn, cafodd yr achos busnes amlinellol ar gyfer y **prosiect Peirianneg Menter a Chanolfan Optegol gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam gymeradwyaeth** i symud i'r cam nesaf.

Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno ar draws dau safle'r Brifysgol yng Nghanolfan OpTIC, Llanelwy a Champws Plas Coch, Wrecsam. Nod y prosiect yw **helpu busnesau gweithgynhyrchu yn y rhanbarth i ddatgarboneiddio**. Bydd yn archwilio'r defnydd integredig o opteg, ffotoneg a chyfansoddion fel atebion amgen, ysgafnach gyda chymwysiadau ar draws pob arbenigedd gweithgynhyrchu.

Mae'r angen dybryd i leihau allyriadau carbon a gwastraff o fusnesau gweithgynhyrchu yn hysbys iawn, yn ogystal â'r manteision posibl megis arbedion cost ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, gall technoleg sy'n newid yn barhaus ac opsiynau di-rif fod yn frawychus i lawer o fusnesau. Nod y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter **yw pontio'r bwlch drwy ddarparu cyfleusterau ac ymchwilwyr o'r Brifysgol i weithio gyda busnesau i archwilio atebion**.



Bydd busnesau'n gallu **defnyddio'r cyfleusterau i greu a phrofi deunyddiau a chydrannau mewn amgylchedd rheoledig**. Y bwriad yw y bydd hyn yn arwain at gynhyrchion a systemau sy'n fwy effeithlon ac sy'n gofyn am lai o ynni, gan leihau costau ac allyriadau. Bydd y prosiect yn creu cyfleoedd cyflogaeth lleol a'i nod yw denu mewnfuddsoddiad i'r rhanbarth.

Mae un arall o'n prosiectau, **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf** fewn y Rhaglen Ddigidol wedi gwneud cynnydd sylweddol y chwarter hwn drwy gwblhau ei broses sicrwydd a sicrhau cefnogaeth gan y Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Cyflawni Busnes cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf am ystyriaeth.

Eleni eisoes, mae'n teimlo ein bod o'r diwedd yn symud ymlaen tuag at gyflawni a gweld prosiectau'r Cynllun Twf yn dod i'r amlwg ar gyfer y rhanbarth. Mae hyn yn hynod foddhaol, yn enwedig i'r rhai sydd wedi cymryd rhan, dros flynyddoedd lawer, i'n cael ni yma. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori yw'r Cynllun Twf ac mae hefyd yn werth nodi ac ystyried yr eco-system lawer ehangach y mae'n bodoli ynddi

Y llynedd, fe wnaethom gyd-greu a chyhoeddi ein [Fframwaith Economaidd Rhanbarthol](#) sy'n nodi ein blaenoriaethau economaidd ac yn hwyluso ffordd o feddwl am ein heriau a'n cyfleoedd gan ddefnyddio dull system gyfan. Yn y pen draw, mae angen i ni fod yn sbarduno newid ac arloesedd mewn ffordd sy'n sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol, ac yn galluogi i'n pobl, ein cymunedau a'n busnesau ffynnu.

Ledled y Gogledd, rydym bellach yn gweithio gyda'n gilydd i adnabod, cytuno a chynllunio sut y gellir gwario ein dyraniad o £126.5m mewn Cyllid Ffyniant Gyffredin i gyfoethogi ein cymunedau, mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu ceisiadau Ffyniant Bro, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu Cynlluniau Gweithredu Ynni Ardal Leol sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Ynni Ranbarthol, ac rydym yn paratoi'r ffordd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i gyfrifoldeb ar Drafnidiaeth Ranbarthol, Cynllunio Strategol a Lles Economaidd. Dim ond ychydig o enghreifftiau yw'r rhain o'r cogiau'n symud o fewn ein system economaidd a gyda'i gilydd byddant yn chwarae rhan bwysig yn ein helpu i weld y Gogledd yn ffynnu mewn ffordd gynaliadwy a chynhwysol.



*Alwen Williams*

**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | [Green] | Mae'r broses ar gyfer diweddaru'r Achos Busnes Portffolio ar gyfer 2022 bellach wedi dechrau. Disgwylir i'r achos busnes wedi'i ddiweddaru gael ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Hydref 2022 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. |
| Piblinell Cyflawni | [Amber] | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 gyda nifer o brosiectau'n rhagweld oedi ar hyn o bryd. |
| Llywodraethu | [Green] | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | [Green] | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2022 a bydd yn canolbwyntio ar y rhaglenni Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel yn ogystal â'r portffolio ehangach. |
| Adnoddau a Chapasiti | [Green] | Mae dwy swydd wag yn y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u hysbysebu gyda chyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer dechrau mis Gorffennaf. |
| Cyllid | [Amber] | Disgwylir hawliad cyntaf ar gyfer costau'r prosiect DSP o fis Ionawr i ddiwedd mis Mehefin ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.<br><br>Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | [Red] | Mae'r proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae'r risg o newid gwleidyddol wedi gostwng yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. |
| Monitro a Gwerthuso | [Green] | Cynhelir adolygiad o'r trefniadau Monitro a Gwerthuso ar gyfer y Cynllun Twf fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | [Green] | Yn ystod y chwarter hwn, buom yn dathlu llwyddiant cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio Ymchwil Busnes y System Gyfan (WBRID) yn y rhanbarth. Fe wnaethom hyrwyddo astudiaethau achos o lwyddiant y tri sefydliad o ran helpu ffermwyr i ddatgarboneiddio. Buom hefyd yn dathlu cydweithrediad newydd gyda Codau First Girls, cynllun sy'n rhoi cyrsiau codio am ddim i fenywod a phobl aneuaidd, gyda'r nod o gau'r bwlch sgiliau rhyw. Yn ogystal, cawsom stondin yn Eisteddfod yr Urdd a chynhaliwyd gweithgareddau marchnata i ymgysylltu â phobl ifanc a'r gymuned. Rhyddhawyd dwy Drafodaeth Ddigidol arall am Gysylltedd Digidol yn y rhanbarth a dilyniant i Ddenu Pobl Ifanc i Ogledd Cymru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| [Green] | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | [Amber] | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | [Red] | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Tud. 16 | • Mae offer prosiect DSP bellach yn cael ei ddarparu a bydd yr hawliad cyntaf i Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno yn Ch2. Bydd gwaith i ddatblygu'r cyntaf o ddau Achos Cyfiawnhau Busnes hefyd yn dechrau yn Ch2 i gymeradwyo ail gyfran cyllid y Cynllun Twf.<br>• Mae'r prosiect ychydig % diwethaf wedi cwblhau adolygiadau sicrwydd pellach; Sicrwydd annibynnol o Weithredu, adolygiadau Byrddau Prosiect a Rhaglen ac adolygiad gan y Grŵp Cyflawni Busnes. Adolygiadau'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais i'w cynnal ym mis Gorffennaf cyn cwblhau trefniadau caffael a gweithgarwch ymgysylltu pellach â'r farchnad. Disgwylir canlyniad Adolygiad Cyhoeddus presennol Llywodraeth Cymru o'r ddarpariaeth band eang yng Nghymru erbyn mis Gorffennaf/Awst.<br>• Mae prosiectau Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig bellach wedi uno i ffurfio'r prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig (CKSC) gyda gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol i ddechrau yn Ch2 gyda Bwrdd Prosiect a Grŵp Cynghori Technegol bellach ar waith.<br>• Bydd datblygiad Achos Amlinellol Strategol y Campws Cysylltiedig yn parhau drwy Ch2 ochr yn ochr â'r prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig gyda chapasiti ac arbenigedd ymgynghori i'w caffael ar gyfer y ddau yn Ch2. |



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Cyflwyno | • Cyflawni gwedd gyntaf yr offer<br>• Cynllunio gweithgareddau Ymchwil a Datblygu sy'n gysylltiedig â buddsoddiad y Cynllun Twf. | • Datblygu'r Achos Cyfiawnhau Busnes cyntaf cyn cymeradwyo ail gam y cyllid<br>• Digwyddiadau Lansio | Gwyrdd | • Cynnydd ar y trywydd iawn heb unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Sicrwydd Gweithredu yn dilyn argymhelliad Porth 2 (Ch4 21/22)<br>• Cwblhau achosion Masnachol, Ariannol ac Economaidd<br>• Adolygiadau Bwrdd Prosiect a Rhaglen<br>• Adolygiad Grŵp Cyflawni Busnes<br>• Adolygiad PMO | • Adolygiad Bwrdd Portffolio<br>• Adolygiad y Bwrdd Uchelgais<br>• Ymgysylltu â'r farchnad<br>• Canlyniad Adolygiad Cyhoeddus LIC o ddarpariaeth band eang<br>• Manyleb fasnachol wedi'i chwblhau<br>• Cymeradwyaeth ddirprwyedig i'r dull caffael *(yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais)*<br>• Caffael *(yn amodol ar gymeradwyaeth ddirprwyedig)* | Ambr | • OBC ar y trywydd iawn i dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais<br>• Yn ddibynnol ar ddeilliant PR LIC<br>• Ymgysylltu â'r farchnad i'w wneud cyn penderfynu ar y dull caffael terfynol (yn gysylltiedig â'r deilliant PR sydd ar gael) |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Ffurfio prosiect newydd sy'n uno prosiectau Coridorau Cysylltiedig blaenorol a Ffibr Llawn mewn safleoedd allweddol<br>• Bwrdd Prosiect a Grŵp Cynghori Technegol bellach wedi'u ffurfio gyda SRO yn ei le<br>• Manyleb ar gyfer cymorth ymgynghori yn barod ar gyfer caffael<br>• Arolwg rhanbarthol o ddarpariaeth 4G bellach wedi'i gwblhau | • Caffael cymorth ymgynghori<br>• Cynnydd yn y gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol<br>• Penodi dirprwy SRO | Ambr | • Mân oedi cyn caffael cymorth ymgynghori |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Bwrdd Prosiect a Grŵp Cynghori Technegol bellach wedi'u ffurfio gyda SRO a dirprwy yn eu lle<br>• Manyleb ar gyfer cymorth ymgynghori yn barod ar gyfer caffael | • Caffael cymorth ymgynghori<br>• Cynnydd yn y gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol | Ambr | • Mân oedi cyn caffael cymorth ymgynghori |

| Allwedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Tud. 18 | RAG ambr cyffredinol oherwydd oedi i achosion busnes Trafnidiaeth Datgarboneiddio ac Egni a goblygiadau ceisiadau am newid Egni a Morlais ar amcanion gwariant y Rhaglen<br>• **Ynni Lleol Blaengar:** Mae'r OBC bellach yn cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar ystyried yr opsiynau manwl ar gyfer y gronfa arfaethedig. Oedi o 3-4 mis i gymeradwyaeth OBC<br>• **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen)** Mae'r ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ac mae bellach yn cael ei chyflawni. Bydd oedi cyn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu i bartner gael ei gaffael<br>• **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni):** Oherwydd pwysau cost a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, mae amserlen y prosiect yn cael ei hadolygu gan Brifysgol Bangor. Bydd hyn yn arwain at oedi pellach cyn cyflwyno'r achos busnes.<br>• **Morlais:** Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cymeradwyo cais Menter Môn am newid, ar yr amod bod cyfyngiadau cytundebol WEFO yn cael sylw erbyn 31 Awst 22. Disgwylir i'r cais gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Hydref 2022<br>• **Trawsfynydd:** Prosiect yn parhau i ddatblygu gyda chynnig Cwmni Egino yn cael ei gyflwyno i randdeiliaid a chytundeb cydweithio yn cael ei ddatblygu gyda Magnox a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear |



**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Aelod Arweiniol**



**Dylan Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Henry Aron**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Morlais**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais B sy'n cael ei ddarparu gan Jones Brothers a symud ymlaen i'r amserlen<br><br>• Mae cais Menter Môn am newid am yr hyn y bydd y £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect yn ei ariannu wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen, yn amodol ar fynd i'r afael â chyfyngiadau cytundebol WEFO erbyn 31 Awst 22 | • Menter Môn yn mynd i'r afael â chyfyngiadau cytundebol WEFO erbyn 31 Awst<br>• Cais am Newid i'w gyflwyno i ystyriaeth bwrdd y Portffolio ym mis Medi<br>• Menter Môn hefyd i gadarnhau enw'r prosiect newydd cyn cyflwyno'r cais newid i'r Bwrdd Portffolio.<br>• Disgwylir Rownd 4 Ocsiwn Canlyniadau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth ym mis Gorffennaf 2022 | | • Proses cais am newid ar waith |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen)**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y ffordd ymlaen arfaethedig ar 29 Ebrill.<br>• Bydd y cam cyntaf yn cynnwys profi'r farchnad drwy Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN). Cyhoeddwyd hwn ar GwerthwchiGymru ar 25 Mai. | • Ar ôl i'r broses ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar ddod i ben ganol mis Gorffennaf, dadansoddi adborth gyda'r nod o ddatblygu proses gaffael ar gyfer cynnwys partner.<br>• Gofyn i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r camau nesaf yn ystod yr Hydref | | • Bydd oedi wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu caffael partner (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd i'r dull arfaethedig)<br>• Disgwylir i risgiau'r prosiect ddod yn gliriach yn dilyn ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar |
| **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Gweithdy achos economaidd cyntaf wedi'i gynnal<br>• Cafodd yr ail weithdy achos economaidd a drefnwyd ar gyfer yr 8fed o Fehefin ei ganslo gan Brifysgol Bangor, gan arwain at oedi cyn targedu dyddiad cymeradwyo Achos Amlinellol Strategol, sef 21 Gorffennaf.<br>• Oherwydd pwysau cost a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, mae amserlen y prosiect yn cael ei hadolygu gan Brifysgol Bangor | • Briffio'r Bwrdd Portffolio ym mis Gorffennaf<br>• Y ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect yn dilyn dadansoddiad technegol o'r opsiynau i'w gyflwyno ym mis Hydref, ynghyd ag amserlen prosiect ddiwygiedig<br>• | | • Sgôr goch oherwydd oedi mynych mewn prosiectau ac effaith cais am newid cyllid cyfalaf ar Amcanion Gwariant y Rhaglen. Mae'r Bwrdd Portffolio wedi ystyried Cais am Newid Cysylltiedig a chaiff ei ddatrys fel rhan o'r Broses OBC ehangach |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r OBC bellach yn cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar ystyried yr opsiynau manwl ar gyfer y gronfa arfaethedig.<br>• Mae Hatch wedi'i gomisiynu i ddarparu cymorth technegol gan arbenigwyr ariannu / buddsoddi<br>• Holiadur ymgysylltu â'r farchnad yn barod i gasglu gwybodaeth am y ffordd orau i'r gronfa gefnogi prosiectau rhanbarthol<br>• Astudiaethau a ariannwyd gan CRF yn symud ymlaen i'r amserlen gyda gweithdai rhestr fer a gynhaliwyd ym mis Mehefin. | • Cwblhau holiadur ymgysylltu â'r farchnad<br>• Ar ôl gwerthuso opsiynau, datblygu strategaeth cronfa gyda chymorth gan Hatch<br>• Cwblhau'r gwaith o ddarparu astudiaethau dichonoldeb system ynni lleol clyfar a ariennir gan CRF | | • Rhagweld oedi o 3-4 mis i gyflawni OBC |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Disgwylir i'r broses achos busnes ddechrau yn 2022/23 | • Ymateb i Gais am Wybodaeth Cronfa Galluogi Dyfodol Niwclear wedi'i gyflwyno i BEIS<br>• Cynnig Cwmni Egino, sydd wedi'i gyflwyno i bartneriaid allweddol, gan gynnwys Bwrdd y Rhaglen Ynni<br>• Cyfarfod gweinidogol gydag amrywiaeth o randdeiliaid ynni yn M-Sparc ym mis Mai pan drafodwyd cyfleoedd yn Nhrawsfynydd a Wylfa. | • Cwmni Egino yn bwrw ymlaen â gwaith gyda NDA a Magnox i gwblhau'r cytundeb cydweithio newydd i helpu i ategu agweddau cydweithio yn y dyfodol a thir<br>• Proses ddethol technoleg amlinellol i'w chadarnhau yn ystod yr haf<br>• Gweithio i ddatblygu cynnig busnes ffurfiol ac achos busnes erbyn diwedd y flwyddyn gyda chymorth Partneriaethau Lleol | | • Ansicrwydd ynghylch amserlen cyflawni prosiectau a'r posibilrwydd o oedi pellach |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Tud. 21 | • Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd arfaethedig ym Mharc Bryn Cegin, Bangor wedi'i ddrafftio.<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo cyllid i ddatblygu Uwchgynllun ar gyfer safle Prosiect Porth y Gorllewin ac i gefnogi sylwadau'r Cynghorau i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Warren Hall, Brychdyn - Gohiriwyd yr adroddiad ar Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd Strategaeth Lleihau Ffosffad Dalgylch Dyfrdwy sydd bellach wedi'i chymeradwyo ond mae hyn wedi golygu bod disgwyl cyhoeddi adroddiad yr Arolygwyr ar ôl yr Etholiadau Lleol.<br>• Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u tîm ymgynghori wedi cytuno ar fecanwaith cyflawni gan rannu'r risg datblygu gyda datblygiad tri cham.<br>• Mae trafodaethau Gwella Capasiti Porthladdoedd sy'n cynnwys Stena, Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru yn parhau gyda gweithdy masnachol i gytuno ar y llwybrau posib i gyflawni cyllid Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r porthladd. |



Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Cyngor Wrecsam ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig i gefnogi'r gwaith i uwchraddio cyffyrdd yr A483 i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Caffael ymgynghorwyr i gyflawni'r uwchgynllunio, arolygon ac adroddiadau. | • Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Cyngor.<br>• Ymgynghorwyr yn dechrau arolygon safle, dylunio, costau a gwaith asesu/ymchwilio safle manwl a gaiff eu cynnwys o fewn y SoC. | | • Mae penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd ar uwchraddio cyffordd yr A483 yn hanfodol i'r prosiect hwn a disgwylir y penderfyniad gweinidogol yn yr hydref 2022. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae sylwadau ysgrifenedig wedi'u cyflwyno i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru. | • Penawdau'r Telerau Drafft ar gyfer y Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru. | | • Rhagwelir Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn hydref 2022 bellach.<br>• Disgwylir penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd yn yr hydref 2022. |
| **Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Trafododd y Byrddau Rhaglen a Phortffolio y llinell amser estynedig ar gyfer cyflawni prosiectau a achoswyd gan yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, ei ddadansoddiad a'r oedi cyn cyhoeddi'r adolygiad o'r CDLl adnau. | • Trafodaeth gyda Sir Ddinbych ynghylch amserlen estynedig y Cynllun Datblygu Lleol a chwmpas diwygiedig allbynnau'r prosiect.<br>• Gofyn am ragor o wybodaeth gan Sir Ddinbych am y prosiect er mwyn gallu gwneud penderfyniadau. | | • Mabwysiadu adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol tua chanol 2025.<br>• Mae'r sgôr risg yn adlewyrchu'r llinell amser estynedig a'r newid sylweddol i allbynnau'r prosiect. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cytunwyd mewn egwyddor ar senario datblygu fesul cam fel ffordd ymlaen i gyflawni'r prosiect. | • Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cyflwyno cais LUF i gyflawni'r gwaith Cam 1 ar y cyd ag ANW.<br>• Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Fesul Cam. | | • Mae risg y prosiect yn dal i adlewyrchu dibyniaeth ar gyllid newydd a chynnydd mewn costau annormal. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd arfaethedig wedi'i ddrafftio | • Cwblhau'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru.<br>• Adroddiad i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i gymeradwyo'r Cytundeb Menter ar y Cyd yn amodol ar gymeradwyaeth ddirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Swyddog Monitro | | • Galw posibl gan feddianwyr<br>• Tirfeddiannwr parod a phartner datblygu<br>• Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio a Pholisi Cynllunio. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo Cyfreithwyr i gynghori ar y sail gyfreithiol i ymyrryd a darparu cyllid i adnewyddu'r Morglawdd<br>• Mae ymgynghorwyr Stena wedi cynnal gweithdy i drafod yr opsiynau ariannol a masnachol i gyflawni'r gwaith o wella capasiti porthladdoedd. | • Mae'r cyllid adnewyddu'r morglawdd wedi'i gymeradwyo fel un sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol a mecanwaith ariannu y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Stena.<br>• Cytuno ar egwyddor mecanwaith ariannu sy'n cydymffurfio a gwaith cymwys gyda Stena.<br>• Cwblhau Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti porthladdoedd. | | • Yr awydd i ddefnyddio'r porthladd ar gyfer prosiectau ynni ar y môr gan ddiwydiant gyda sicrwydd cytundebol ar gyfer y buddsoddiad ar y môr yn 2025/6. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cadarnhau strwythur y Rhwydwaith Talent Twristiaeth rhwng y coleg a phartneriaid yn y sector preifat ac mae'r tîm bellach yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i ddatblygu eu Hachos Amlinellol Strategol (SOC).<br>• Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cyflwyno eu cais cyn-cynllunio ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon ac maent yn gweithio ar ddylunio terfynol a rheoli cynnydd mewn costau wrth iddynt weithio tuag at gynnig cynllunio llawn. |





Cyng Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Jane Richardson
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar y dyluniad<br>• Cyflwyno cais cyn-cynllunio<br>• Adolygu methodoleg derbyn tenantiaid<br>• Integreiddio allyriadau carbon a methodoleg bioamrywiaeth i'r cam Achos Busnes Llawn | • Cyflwyno cais cyn-cynllunio a chais cynllunio llawn<br>• Ymgysylltu â rhanddeiliad<br>• Dechrau drafftio'r Achos Busnes Llawn | | • Rheoli costau cyfalaf adeiladu sy'n cynyddu<br>• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygu adborth ar argymhellion Adolygiad Porth 2<br>• Trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynghylch blaengynllun o Adolygiad Porth 2 | • Cadarnhau sgôp diwygiedg y prosiect gan ystyried canfyddiadau'r Adolygiad<br>• Cychwyn y broses rheoli newid | | • Oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2 |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Datrys y sefyllfa gyfreithiol ar strwythur y prosiect<br>• Parhau i ddatblygu'r achos busnes drwy weithdy Achos Strategol gyda rhanddeiliaids<br>• Integreiddio allyriadau a methodoleg bioamrywiaeth | • Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid y prosiect<br>• Parhau i ddatblygu'r achos busnes drwy weithdy Achos Economaidd<br>• Bwrdd Rhaglen i ystyried Achos Amlinellol Strategol (SOC) Bydd hyn yn Hydref 22 felly nid yn y chwarter hwn | | • Amserlen datblygu'r achos busnes wedi'i hoedi ychydig ond mae'r cynllun rheoli yn ei le |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Tud. 26 | • Bwrdd Uchelgais wedi cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (Ebrill 2022). Yr Achos Busnes Llawn i gael ei baratoi a'i ystyried ym mis Mai 2023.<br>• Bwrdd Rhaglen wedi cymeradwyo Achos Amlinellol Strategol prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) Prifysgol Bangor (Ebrill 2022). Yr Achos Busnes Llawn i gael ei baratoi a'i ystyried ym mis Rhagfyr 2022.<br>• Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi trefnu ymweliad gwerthfawr i'r Cynllun Twf â'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC Cymru) a fynychwyd gan Brifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵ Wrecsam a Grŵp Llandrillo Menai am drafodaethau ynghylch gweithgynhyrchu bwyd (bore) a datrysiadau trafnidiaeth ac ynnig carbon isel (prynhawn)<br>• Mae'r ddau brosiect yn gweithio i integreiddio ystyriaethau gwerth cymdeithasol a dull allyriadau a bioamrywiaeth Uchelgais Gogledd Cymru i'w prosesau achos busnes. |



Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (melyn) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol (Ebrill 2022) gan gynnwys cais am newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Integreiddio allyriadau a methodoleg bioamrywiaeth yn parhau | • Paratoi ar gyfer caffael dyluniad ac adeiladu.<br>• Datblygu Achos Busnes Llawn i'w ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Mai 2023. | | • Eglurhad o'r sefyllfa cyllid cyfatebol<br>• Datblygu'r Achos Busnes Llawn yn cael ei reoli'n gadarn |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Rheolwr Prosiect wedi'i recriwtio<br>• Achos Amlinellol Strategol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen.<br>• Integreiddio allyriadau a methodoleg bioamrywiaeth | • Datblygu manylion y cais am newid ar gyfer amcanestyniadau cyfalaf a refeniw<br>• Datblygu Achos Busnes Llawn i'w ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Rhagfyr 2022. | | • Cais i newid sy'n weddill ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 8. Tabl Cynnydd Prosiectau'r Cynllun Twf

| Project | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllunio llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd-destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Gweithredu a monitro'r prosiect | Gwerthuso'r prosiect |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Morlais | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | ⏱ | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen) | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gyflwyno a Thrwydded Morol wedi'i rhoi | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ⏱ | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Safle Strategol Bodelwyddan | Angen CDLl newydd | | | | ⏱ | | | | | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdygn | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | ⏱ | | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | ⏱ | | | | ⏱ | | | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Fferm Sero Net Llysfasi | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pherianneg Menter | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |

Tud. 28

# 9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni (Mehefin 2022)

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020 | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Coridor Cysylltiedig | 25 | 0 | 2.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol | 20 | 120 | 7.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | 50 | 100 | 36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen) | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 125 | 250 | 82 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | 215 | 310 | 15.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | OBC | 33 | 61 | 14.7 | -12 | -9 | -15.2 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | 2 OBC<br>1 FBC | 90 | 190 | 30.7 | -30 | - | -19.5 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio  ** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

## 10. Piblinell Cyflawni Prosiect y Cynllun Twf - Achos Busnes Portffolio 2021

Nodyn: Mae'r proffil cyflawni yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad blynyddol yr Achos Busnes Portffolio a bydd yn cael ei adrodd o Chwarter 2.

## 11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf

Nodyn: Mae'r proffil gwariant yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad blynyddol yr Achos Busnes Portffolio a bydd yn cael ei adrodd o Chwarter 2.



## 12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf

Nodyn: Mae'r proffil dyraniad gwariant yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad blynyddol yr Achos Busnes Portffolio a bydd yn cael ei adrodd o Chwarter 2.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r angen i wella'r ddarpariaeth rhwydwaith ffibr optig i gefnogi amcanion deuol darparu band eang ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol (fel parciau busnes) a darparu cysylltiadau 'cefn' ffibr sy'n cefnogi darpariaeth 4G ar lwybrau ffyrdd a rheilffyrdd allweddol y rhanbarth. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Twristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# COFRESTR RISG PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

| Rhif y Risg | Dyddiad Cod'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros Cyfredol | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau Camau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg weddilliol | | | Tuedd | Statws (agored/caedig) | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R001 | 10/21/2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad oes adnoddau digonol yn eu lle ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, mae risg y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus | 3 | 4 | 12 | ↔ | Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024<br><br>Capasiti caffael a chyfreithiol technegol ychwanegol i'w sicrhau ar gyfer prosiectau fel sydd angen<br><br>PMO i ddefnyddio cefnogaeth dechnegol allanol pan fo angen<br><br>PMO yn cefnogi partneriaid i sicrhau capasiti i gyflawni a chefnogi gweithgaredd recriwtio | Yn ei le<br><br>Ebrill 2022<br><br>Adolygu'n fisol<br><br>Adolygu'n fisol | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO, Arianwyr y Prosiectau | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R002 | 10/21/2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Oediad | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os oes oedi i gyflawni prosiectau, mae yna risg y gallai hyn gael effaith ar wireddu buddion neu gallai olygu bod prosiectau ddim yn symud ymlaen. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais<br><br>Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion<br><br>Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru<br><br>Adroddiadau Chwarterol i'r Bwrdd Uchelgais a'r Bwrdd Portffolio | Misol<br><br>Misol<br><br>N/A<br><br>Chwarterol<br><br>Awst 2022 | PMO<br><br>PMO, Ariannwr y Prosiect<br><br>Ariannwr y Prosiect<br><br>Ariannwr y Prosiect<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R003 | 10/21/2020 | Ariannol | Fforddiadwyedd | Swyddfa Rheoli Portffolio | os bydd costau prosiectau yn cynyddu, ceir risg na fyddent yn bwrw ymlaen neu efallai y byddai angen lleihau sgôp y prosiectau | 5 | 5 | 25 | ↔ | Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau.<br><br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br><br>Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect.<br><br>Trafodaethau gyda LlC/LlyDU ar strategaeth liniaru i reoli risg costau cynyddol | N/A<br><br>Misol<br><br>N/A<br><br>Misol | PMO, Ariannwr y Prosiect<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 5 | 4 | 20 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R004 | 10/21/2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Adfer yr Economi | Cyfarwyddwr Portffolio | Os bydd adferiad yr economi yn rhanbarthol wedi'i gyfyngu, gallai bod risg i gyflawni portffolio'r Cynllun Twf a hyfywedd prosiectau penodol. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Cydweithio rhanbarthol ar adfer yr economi wedi'i gydlynu gan y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.<br><br>Bydd Achosion Busnes Prosiectau yn ystyried goblygiadau COVID-19<br><br>Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol wedi'i gyhoeddi ac yn gosod y blaenoriaethau strategol ar gyfer economi'r Gogledd. Y cam gweithredu i fwrw ymlaen yn 2022 | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A | PMO, SROs<br><br>PMO,SROs, Bwrdd Uchelgais<br><br>Cyfarwyddwr Portffolio | 4 | 3 | 12 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R005 | 10/21/2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Cytundeb Cydweithredu a Masnach yr UE/y DU | Cyfarwyddwr Portffolio | Os bydd perthynas fasnach newydd y DU/yr UE yn effeithio ar sectorau penodol o'r economi yna bydd risg y gallai hyfywedd prosiectau penodol y Cynllun Twf newid. | 3 | 3 | 9 | ↔ | Bydd Achosion Busnes Prosiectau yn ystyried goblygiadau perthynas fasnach newydd y DU/yrUE.<br><br>Lle gallai perthynas fasnach newydd y DU/yr UE gael effaith glir ar hyfywedd / angen am brosiect, bydd y prosiect yn ddarostyngedig i adolygiad llawn cyn datblygu'r achos busnes | N/A<br><br>N/A | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO/SROs y Prosiect | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R006 | 10/21/2020 | Amgylcheddol | Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth | Cyfarwyddwr Portffolio | Os nad yw prosiectau yn ystyried allyriadau carbon neu golli bioamrywiaeth mewn asesiadau lefel prosiect, mae yna risg y gallai'r portffolio gyfrannu at broblemau megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth | 4 | 3 | 12 | ↔ | Datganiad sefyllfa ar Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais.<br><br>Achosion Busnes y Prosiectau i arddangos cyflawni yn erbyn y sefyllfa y mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i fabwysiadu.<br><br>Ymgynghoriad yn digwydd ar y fethodoleg ddrafft ar sut i ystyried allyriadau carbon a cholled bioamrywiaeth mewn achosion busnes prosiectau gyda phartneriaid. | N/A<br><br>N/A<br><br>Ebrill 2022 | BWRDD UCHELGAIS<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R007 | 10/21/2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Preifat | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector preifat ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Parhau i ymgysylltu ag Arianwyr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat<br><br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br><br>Proses wedi'i chytuno er mwyn ystyried prosiectau newydd os oes angen<br><br>Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le | PMO/SROs y Prosiect<br><br>PMO/SROs y Prosiect<br><br>Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br><br>PMO<br><br>PMO | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros Cyfredol P | I | Sgôr | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau Camau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg weddilliol P | I | Sgôr | Tuedd | Statws (agored/caedig) | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R008 | 10/21/2020 | Ariannol | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddsoddiad y sector cyhoeddus ei sicrhau, mae risg na chaiff prosiectau eu cyflawni neu y cânt eu cyflawni ar raddfa lai a fyddai'n effeithio ar y buddion i'r rhanbarth. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Mae holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais wedi llofnodi'r Cynllun Twf a Chytundeb Llywodraethu 2.<br>Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf<br>Cytuno ar broses i ystyried prosiectau newydd neu newidiadau i ragamcanion buddsoddi sector cyhoeddus | Wedi cwblhau<br>N/A<br>N/A | BWRDD UCHELGAIS<br>PMO/SROs y Prosiect<br>Y BWRDD | 4 | 4 | 16 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R009 | 10/21/2020 | Rheoleiddio | Caniatâd Cynllunio a Statudol | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad yw prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol, ceir risg na fydd y prosiectau yn cael eu cyflawni ac na chaiff y buddion eu gwireddu. | 4 | 5 | 20 | ↔ | Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect<br>Parhau i ymgysylltu ag arianwyr y prosiectau i ddeall y broses caniatâd a'r risgiau gyda'r gefnogaeth a ddarperir lle bo hynny'n briodol<br>Strategaeth ffosffadau awdurdodau lleol yn ei lle fel rhan o fabwysiadu Cynllun Lleol.<br>PMO i adolygu cynnydd gyda chymeradwyo prosiectau | N/A<br>N/A<br>Ebrill 2022<br>Ebrill 2022 | PMO/SROs y Prosiect<br>PMO<br>Awdurdodau Lleol<br>PMO | 3 | 5 | 15 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R010 | 10/21/2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Amcanion Gwariant | Cyfarwyddwr Portffolio | Os yw prosiectau'n methu cyflawni yn erbyn amcanion gwario'r portffolio, yna ceir risg na fydd y Cynllun Twf yn bodloni ei dargedau mewn perthynas â chynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad. | 5 | 4 | 20 | ▲ | Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio<br>Proses adolygu prosiect a rheoli newid yn ei lle.<br>Cytuno ar broses i ystyried prosiectau newydd neu newidiadau i ragamcanion buddsoddi sector cyhoeddus<br>Yn dilyn yr argymhelliad PAR, mae strategaeth buddsoddiad wedi cael ei datblygu | N/A<br>N/A<br>N/A<br>Yn ei le | PMO/SROs y Prosiect<br>PMO<br>Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br>PMO | 4 | 4 | 16 | ▲ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R013 | 10/21/2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Newid Gwleidyddol | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff rhanddeiliaid eu rheoli'n effeithiol, ceir risg y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. | 3 | 4 | 12 | ▼ | Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol.<br>GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymiadau'r holl bartïon.<br>Aelodau newydd i gael eu briffio ar Bortffolio'r Cynllun Twf yn dilyn yr etholiad | N/A<br>Wedi cwblhau<br>Mai/Mehefin 2022 | Y BWRDD UCHELGAIS, PMO<br>BWRDD UCHELGAIS | 2 | 4 | 8 | ▼ | Agored | Wedi adolygu risg. Mae'r sgôr risg gros a gweddilliol wedi gostwng yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022. | 28.06.22 |
| R014 | 10/22/2020 | Ariannol | Twyll | Cyfarwyddwr Portffolio | Os na chaiff prosesau priodol eu rhoi yn eu lle a'u rheoli, yna gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus | 4 | 4 | 16 | ↔ | Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle<br>PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu<br>Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2<br>Caiff Cofrestr Gwrthdrawiad Buddiannau ei gadw ar gyfer pob rhaglen, prosiect a'r grwpiau ymgynghorol. | N/A<br>N/A<br>Wedi cwblhau<br>N/A | PMO<br>PMO<br>Swyddog Monitro<br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R015 | 10/22/2020 | Effaith Cymdeithasol ac Enw da | Gwireddu Buddion | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os na chaiff buddion prosiectau eu gwireddu, ceir risg y gallai'r Cynllun Twf yn gyffredinol fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion.<br>Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion<br>Egwyddorion Caffael i'w mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol<br>Canllawiau Gwireddu Buddion wedi'u datblygu ac yn cael eu dosbarthu i arianwyr prosiectau i'w defnyddio yn achosion busnes y prosiectau | N/A<br>Misol<br>Wedi cwblhau<br>N/A | PMO, SROs y Rhaglenni a'r Prosiectau<br>PMO<br>PMO<br>PMO | 3 | 3 | 9 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R016 | 10/22/2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Sicrwydd | Rheolwr Gweithrediadau | Os na chaiff prosesau sicrwydd y cytunir arnynt eu dilyn, ceir risg y gallai cymeradwyo prosiectau gael ei effeithio a gallai arwain at atal/gohirio taliadau grant y llywodraeth. | 3 | 5 | 15 | ↔ | Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r Cynllun Twf Terfynol.<br>Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio a diweddaru'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP)<br>Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP | Wedi cwblhau<br>Chwarterol<br>N/A | PMO<br>PMO<br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R017 | 10/22/2020 | Ariannol | Rheolaeth Ariannol. | Swyddog a151 | Os na chaiff trefniadau ariannol priodol eu rhoi yn eu lle, yna gallai cyflawni'r cynllun twf, tynnu arian grant i lawr a chlustnodi cyllid fod mewn perygl. | 3 | 4 | 12 | ↔ | Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya<br>Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid<br>Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol misol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau<br>Proses hawliadau ariannol gadarn wedi'i sefydlu ar gyfer tynnu arian i lawr | N/A<br>N/A<br>Misol<br>N/A | PMO<br>PMO, SRO y Prosiect<br>PMO, SRO y Prosiect<br>PMO | 2 | 3 | 6 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |

Tud. 34

| Rhif y Risg | Dyddiad Codi'r Risg | Categori'r Risg | Enw'r Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Graddfa Risg Gros Cyfredol | | | Tuedd | Camau Lliniaru | Dyddiadau Cwblhau Camau | Perchennog y Cam | Graddfa Risg weddilliol | | | Tuedd | Statws (agored/caedig) | Sylwadau | Dyddiad y diweddariad diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | P | I | Sgôr | | | | | P | I | Sgôr | | | | |
| R018 | 10/1/2020 | Ariannol | Cyllid refeniw | Swyddfa Rheoli Portffolio ac Arianwyr y Prosiect | Os na fydd cyllid refeniw digonol yn ei le i gefnogi gweithgareddau'r Bwrdd Uchelgais a chyflawni'r Cynllun Twf, yna mae'n bosib yr effeithir ar gyflawniad prosiectau a chyrraedd amcanion gwario a buddion | 3 | 4 | 12 | ↔ | Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymestyn contractau tymor penodol i fis Mawrth 2024 Parhau i ymchwilio i ddatrysiadau tymor hwy<br><br>Partneriaid ac arianwyr prosiectau yn gyfrifol am sicrhau cyllid refeniw i gefnogi prosiectau nad ydynt yn cael eu harwain gan y Bwrdd Uchelgais<br><br>PMO yn gweithio i adnabod cyfleoedd ariannu ychwanegol ar gyfer prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais<br><br>PMO yn edrych ar gyfalafu posib costau cyflog y prosiectau | N/A<br><br>N/A<br><br>N/A<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO, SRO y Prosiect<br><br>PMO | 2 | 4 | 8 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 28.06.22 |
| R019 | 10/1/2020 | Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau | Capasiti Sgiliau a Chadwyn Gyflenwi | Swyddfa Rheoli Portffolio | Os nad oes gan y gadwyn gyflenwi ranbarthol gapasiti i gyflawni prosiectau, yna gellid effeithio ar gyflawniad prosiectaua a gallai buddion rhanbarthol fod yn is. | 4 | 4 | 16 | ↔ | Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesurau lliniaru, yn cynnwys risgiau cadwyn gyflenwi.<br><br>RSP yn gweithio gyda'r PMO i adnabod heriau sgiliau / cadwyni cyflenwi rhanbarthol ac adnabod mesurau lliniaru<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer gweithgaredd sgiliau<br><br>Prosiectau i gynnal ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar lle bo hynny'n briodol | N/A<br><br>N/A<br><br>Yn ei le<br><br>N/A | PMO<br><br>PMO<br><br>PMO<br><br>Arianwyr y Prosiectau | 3 | 4 | 12 | ↔ | Agored | Wedi adolygu risg. Dim newidiadau i sgoriau risg gros neu weddilliol. | 30.03.22 |

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**15/07/2022**

**Teitl:** Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2021/22.

**Awdur:** Dewi A Morgan, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**2.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y BUEGC (yn amodol ar archwiliad) am 2021/22.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nid oes gofyn statudol i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

3.2 Bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn terfynol ym mis Hydref ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru, ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r Bwrdd ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae

hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Mae BUEGC, am y flwyddyn gyntaf yn 2021/22, wedi cynhyrchu Datganiad Cyfrifon blynyddol llawn yn hytrach na ffurflen flynyddol, a ddefnyddir ar gyfer Cyd-Bwyllgorau llai eu maint sydd â trosiant llai na £2.5m.

4.2 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod Hydref 2022 o'r BUEGC.

4.3 Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf i'r Bwrdd ar 29 Ebrill 2022. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

**5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl Gyd-Bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol.

**6. Atodiadau**

Atodiad 1 – Datganiad o Gyfrifon y BUEGC am 2021/22

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

Nid oes unrhyw oblygiadau priodoldeb na chyfreithiol.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol – Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 – 5 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 6 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 7 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 8 |
| Datganiad o’r Symudiad Mewn Reserfau | 9 |
| Y Fantolen | 10 |
| Datganiad Llif Arian | 11 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 12 – 33 |
| Geirfa | 34 - 35 |

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar 1 Chwefror 2019 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Cyd-Bwyllgor hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Cyd-Bwyllgor gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240miliwn i economi Gogledd Cymru fel rhan o'r cytundeb. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf a chymeradwywyd achos busnes y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a bellach mae'n cael ei gyflawni.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer y BUEGC.

Mae cyfrifon y BUEGC am 2021/22 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 7 i 35. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2021/22.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol.

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2022.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2021/22 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

### Uchelgais y BUEGC

Uchelgais y BUEGC yw adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru er mwyn:
- Canolbwyntio ar wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.
- Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn ffordd gynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, gweld busnesau'n tyfu a chymunedau'n ffynnu.
- Hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth, yn unol â nodau llesiant Cymru.

### Cynllun Twf Gogledd Cymru

Nod y Cynllun Twf yw dod â dros £1 biliwn o fuddsoddiad i Ogledd Cymru er mwyn cynhyrchu dros 4,000 o swyddi newydd a chynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros o £2.4 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf ar y cyd dros gyfnod o 15 mlynedd, gyda'r gweddill wedi'i ddenu o ffynonellau preifat a chyhoeddus. Bydd y deilliannau a ddymunir o'r buddsoddiad hwn yn cael eu cyflawni drwy gyflawni portffolio o bum rhaglen ar wahân sy'n:
- adeiladu ar ein cryfderau rhanbarthol mewn gweithgynhyrchu ac ynni carbon isel
- targedu arloesedd ac isadeiledd digidol i gysylltu'r rhanbarth yn well
- buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo allweddol ar gyfer y farchnad datblygu
- galluogi arloesedd i roi hwb i gynhyrchedd
- cefnogi ein diwydiannau allweddol o fewn twristiaeth ac amaeth i ddatblygu ar gyfer y dyfodol

Y pum rhaglen yw Ynni Carbon Isel, Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uchel, Cysylltedd Digidol a Thir ac Eiddo.

**Cyllideb 2021/22**

Mabwysiadodd y Cyd-Bwyllgor ei gyllideb ar gyfer 2021/22 yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2021 ac mae ar gael yn: Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Dydd Gwener, 26ain Mawrth, 2021, 2.30 y.h. (llyw.cymru)

Bydd newidiadau yn sgil pandemig Covid-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cynghorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

**Perfformiad 2021/22**

Mae'r BUEGC yn adrodd yn chwarterol ar y cynnydd yn erbyn Bargen Twf Gogledd Cymru, ac mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn:
Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Dydd Gwener, 24ain Mehefin, 2022, 1.00 y.h. (llyw.cymru)

**Perfformiad Ariannol 2021/22**

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £2,828k yn ystod 2021/22, gyda'r sefyllfa net yn (£487k).
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2021/22 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2022, ac mae ar gael yn: Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar Dydd Gwener, 29ain Ebrill, 2022, 1.30 y.h. (llyw.cymru)
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | **Cyllideb £'000** | **Gwir £'000** | **Gwahaniaeth £'000** |
|---|---:|---:|---:|
| Gwariant ar Weithgareddau | 2,976 | 3,304 | 328 |
| Ariannwyd gan- | | | |
| Cyfraniadau'r Partneriaid | (1,318) | (1,318) | 0 |
| Grantiau, chyfraniadau ac incwm eraill | (1,243) | (1,889) | (646) |
| Cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol | (415) | (415) | 0 |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **(318)** | **(318)** |

**TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o’r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a’r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i’r fformat Incwm a Gwariant**

| | Adroddiad Perfformiad (Alldro) | Addasiad Trawsddodiad | Sefyllfa Net i'w Ariannu gan / (drosglwyddo i) falansau'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant | 3,304 | (889) | 2,415 | 413 | 2,828 |
| Incwm | (3,622) | 431 | (3,191) | (124) | (3,315) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | **(318)** | **(458)** | **(776)** | **289** | **(487)** |

*Addasiad Trawsddodiad - Mae’r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.*

**Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae’r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £200k yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o’r ymrwymiad buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 14.2).
- £3,315k mewn grantiau a chyfraniadau a’r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

**Materion Eraill**

- Mae risgiau ariannol gyda sefyllfa’r economi byd-eang ac mae’r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ansicrwydd economaidd yn parhau yn sgil terfynu aelodaeth y DU o’r Undeb Ewropeaidd a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
- Mae’r argyfwng Covid-19 cyfredol yn parhau yn her ariannol i’r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolig.

**Gwariant Cyfalaf yn 2021/22**

Yn 2021/22 gwariodd y Cyd-Bwyllgor £124k ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â’r modd y cafodd ei ariannu.

## TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

| 2020/21 | | 2021/22 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 0 | Prosiectau | 124 |
| **0** | | **124** |
| | **ARIANNWYD GAN -** | |
| 0 | Grantiau a Chyfraniadau | 124 |
| **0** | | **124** |

Mae’r £124k yn y tabl uchod yn Wariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud ac fe ad-dalwyd y gwariant yma i’r Datganaid Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Mae wedi ei wario ar y prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol gan Brifysgol Bangor ac ariannwyd gan Grant y Fargen Dwf.

**Arian wrth Gefn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy o £1,531k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Roedd yr ymrwymiad net yma ar 31 Mawrth 2022 yn £942k. Gweler Nodyn 24 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf ar gyfer cyfrifon 2022/23 yn seiliedig ar 31 Mawrth 2022.

**Llywodraethu**

Mae BUEGC yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 12.

**Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Sian Pugh
Cyfrifydd Grwp
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR**

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

---

**CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



**30 Mehefin 2022**

**Dewi Aeron Morgan CPFA**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2020/21 | | | | 2021/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 7)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler Nodyn 7)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 800 | 0 | 800 | Swyddfa Rheoli Portffolio | 1,384 | 289 | 1,673 |
| 127 | 0 | 127 | Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol | 141 | 0 | 141 |
| 42 | 0 | 42 | Cyd-bwyllgor | 13 | 0 | 13 |
| 117 | 0 | 117 | Prosiectau | 226 | 124 | 350 |
| 0 | 0 | 0 | Cynlluniau Grantiau | 651 | 0 | 651 |
| (1,320) | 0 | (1,320) | Incwm | (3,191) | (124) | (3,315) |
| **(234)** | **0** | **(234)** | **Cost Gwasanaethau** | **(776)** | **289** | **(487)** |
| (7) | 0 | (7) | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (16) | 3 | (13) |
| **(241)** | **0** | **(241)** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(792)** | **292** | **(500)** |
| (498) | | | Balans Agoriadol | (739) | | |
| (241) | | | Gweddill)/Diffyg yn y flwyddyn | (792) | | |
| **(739)** | | | Balans Cau | **(1,531)** | | |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2020/21 Gwariant Gros | 2020/21 Incwm Gros | 2020/21 Gwariant Net | | Nodyn | 2021/22 Gwariant Gros | 2021/22 Incwm Gros | 2021/22 Gwariant Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 800 | 0 | 800 | Swyddfa Rheoli Portffolio | | 1,673 | 0 | 1,673 |
| 127 | 0 | 127 | Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol | | 141 | 0 | 141 |
| 42 | 0 | 42 | Cyd-bwyllgor | | 13 | 0 | 13 |
| 117 | 0 | 117 | Prosiectau | | 350 | 0 | 350 |
| 0 | 0 | 0 | Cynlluniau Grantiau | | 651 | 0 | 651 |
| 0 | (1,320) | (1,320) | Incwm | | 0 | (3,315) | (3,315) |
| **1,086** | **(1,320)** | **(234)** | **Cost Gwasanaethau** | | **2,828** | **(3,315)** | **(487)** |
| 0 | (7) | (7) | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *10* | 3 | (16) | (13) |
| **1,086** | **(1,327)** | **(241)** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **2,831** | **(3,331)** | **(500)** |
| | | 0 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *14.2* | | | (200) |
| | | **0** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(200)** |
| | | **(241)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(700)** |

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Nodyn*** | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen** | | **(498)** | **0** | **(498)** |
| <u>Symudiad mewn reserfau yn 2020/21</u> | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **(241)** | **0** | **(241)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(241)** | **0** | **(241)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | **(241)** | **0** | **(241)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21*** | | **(241)** | **0** | **(241)** |
| **Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen** | *9* | **(739)** | **0** | **(739)** |
| Balans Agoriadol IAS 19 | | **0** | **891** | **891** |
| Balans Agoriadol 1 Ebrill 2021 | | **(739)** | **891** | **152** |
| <u>Symudiad mewn reserfau yn 2021/22</u> | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **(500)** | **0** | **(500)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **(200)** | **(200)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **(500)** | **(200)** | **(700)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(292)** | **292** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | *9* | **(792)** | **92** | **(700)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22*** | | **(792)** | **92** | **(700)** |
| **Balans 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen** | | **(1,531)** | **983** | **(548)** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2021 £'000** | | ***Nodyn*** | **31 Mawrth 2022 £'000** |
|---:|---|---|---:|
| 509 | Dyledwyr Tymor Byr | *11* | 21,253 |
| 16,255 | Arian a Chyfwerthoedd Arian | *12* | 16,768 |
| **16,764** | **Asedau Cyfredol** | | **38,021** |
| (25) | Credydwyr Tymor Byr | *13* | (428) |
| (16,000) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *20* | (29,000) |
| **(16,025)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(29,428)** |
| 0 | Ymrwymiad Pensiwn | *24* | (942) |
| 0 | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *20* | (7,103) |
| **0** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(8,045)** |
| **739** | **Asedau Net** | | **548** |
| (739) | Reserfau Defnyddiadwy | *9* | (1,531) |
| 0 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *14* | 983 |
| **(739)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(548)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

| **2020/21**<br>**£'000** | | ***Nodyn*** | **2021/22**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|
| (241) | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | (500) |
| (15,505) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *15a* | (137) |
| (15,746) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (637) |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | *16* | 124 |
| 0 | Gweithgareddau Ariannu | | 0 |
| (15,746) | (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian | | (513) |
| (509) | Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | *12* | (16,255) |
| **(16,255)** | **Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | *12* | **(16,768)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2021/22 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2022. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chyfwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### 1.4 Buddiannau Gweithwyr

#### 1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

#### 1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

### 1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.75% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyd-Bwyllgor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

### 1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyd-bwyllgor yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

### 1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.9 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

### 1.10 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

### 1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

### 1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor BUEGC wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22.

## NODYN 3 – SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côd 2022/23:

Gwelliannau Blynyddol i SAARh 2018–2020. Mae'r rhaglen wella SAARh blynyddol yn nodi 4 newid i'r safonau:

- SAARh1 (Mabwysiadu am y tro cyntaf) – mae'r gwelliant yn ymwneud â gweithrediadau tramor is-gwmnïau caffaeledig sy'n trosglwyddo i IFRS.
- SCRh 37 (Contractau beichus) – yn egluro bwriad y safon.
- SAARh 16 (Prydlesau) – mae'r gwelliant yn dileu enghraifft gamarweiniol nad oes cyfeiriad ato yn neunydd y Côd.
- SCRh 41 (Amaethyddiaeth) – un o nifer fach o SAARh y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i'r awdurdodau lleol mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig.

Eiddo, Offer a Chyfarpar: Enillion cyn y Defnydd Bwriedig (Diwygiadau i SCRh 16).

Mae'n ofynnol fod y Côd yn weithredol o 1 Ebrill 2022 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2021/22, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côd Ymarfer 2022/23 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

## NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Tra bod effeithiau'r argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a'r tymor canolig, mae'r Cyd-Bwyllgor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth eu hasedau.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2022 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau |
|---|---|---|
| Ymrwymiad Pensiwn | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn.<br><br>Cafodd Brexit a COVID-19 effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, ond mae'n ymddangos bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai achos difrifol arall o COVID-19 gael effaith niweidiol ar adneillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno codiadau chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad. | Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 24. |

## NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- £200k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 14.2).
- £3,315k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 20).

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| **2021/22** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** £'000 | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** £'000 | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** £'000 | **Cyfanswm Addasiadau** £'000 |
| Swyddfa Rheoli Portffolio | 0 | 248 | 41 | 289 |
| Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyd-bwyllgor | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prosiectau | 124 | 0 | 0 | 124 |
| Cynlluniau Grantiau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | (124) | 0 | 0 | (124) |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **248** | **41** | **289** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 3 | 0 | 3 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **251** | **41** | **292** |

Nid oedd yna unrhyw drafodion yn 2020/21.

### (i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.

### (ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### (iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

## NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

| **2021/22**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** | | |
| Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd | 124 | (124) |
| Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (124) | 124 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24) | (413) | 413 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 162 | (162) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (41) | 41 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(292)** | **292** |

Nid oedd yna unrhyw drafodion yn 2020/21.

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda chynnydd net o £792k.

**Reserfau Defnyddiadwy**

| | **2021/22** | **Balans 31 Mawrth 2021** | **Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd** | **mewn** | **allan** | **Balans 31 Mawrth 2022** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nodyn** | | | | | | |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 9.1 | Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd | 739 | (5) | 318 | (415) | 637 |
| 9.2 | Cronfa Prosiectiau | 0 | 0 | 195 | 0 | 195 |
| 9.3 | Cronfa Llog | 0 | 5 | 694 | 0 | 699 |
| | **Cyfanswm** | **739** | **0** | **1,207** | **(415)** | **1,531** |

9.1 Cronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd - i gefnogi cyllidebau'r blynyddoedd i ddod a'r strwythur staffio.

9.2 Cronfa Prosiectiau - i ariannu gwariant sydd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

9.3 Cronfa Llog - i ariannu cost benthyca yn y dyfodol.

## NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2020/21 £'000 | | 2021/22 £'000 |
|---|---|---|
| 0 | Llog net yr ymrwymiadau/(asedau) buddion diffiniedig net | 3 |
| (7) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (16) |
| **(7)** | **Cyfanswm** | **(13)** |

## NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau Derbyniadwy Masnach | 3 | 0 |
| Blaendaliadau | 0 | 6 |
| Symiau Derbyniadwy Eraill | 506 | 21,247 |
| **Cyfanswm** | **509** | **21,253** |

## NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya | 16,255 | 16,768 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | **16,255** | **16,768** |

## NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau Taladwy Masnach | 49 | 259 |
| Symiau Taladwy Eraill | (24) | 169 |
| **Cyfanswm** | **25** | **428** |

## NODYN 14 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2021 | | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 0 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | 0 |
| 0 | Reserf Pensiynau | (942) |
| 0 | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (41) |
| **0** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **(983)** |

### 14.1 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyd-Bwyllgor fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae Nodyn 8 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif.

| 2020/21 | | 2021/22 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| **0** | **Balans 1 Ebrill** | **0** |
| | Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | |
| 0 | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (124) |
| | Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn: | |
| 0 | Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf | 124 |
| **0** | **Balans 31 Mawrth** | **0** |

## NODYN 14 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

### 14.2 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| **2020/21<br>£000** | | **2021/22<br>£000** |
|---:|---|---:|
| **0** | **Balans 1 Ebrill** | **(891)** |
| 0 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | 200 |
| 0 | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (413) |
| 0 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 162 |
| **0** | **Balans 31 Mawrth** | **(942)** |

### 14.3 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| **2020/21<br>£000** | | **2021/22<br>£000** |
|---:|---|---:|
| **0** | **Balans 1 Ebrill** | **0** |
| 0 | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (41) |
| **0** | **Balans 31 Mawrth** | **(41)** |

## NODYN 15a – DATGANIAD LLIF ARIAN - ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2020/21<br>£'000 | | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| (15,998) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (20,465) |
| 493 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 20,744 |
| 0 | Ymrwymiad Pensiwn | (251) |
| 0 | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | (165) |
| **(15,505)** | | **(137)** |

## NODYN 15b – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2020/21<br>£'000 | | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| (7) | Llog derbyniwyd | (16) |

## NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2020/21<br>£'000 | | 2021/22<br>£'000 |
|---|---|---|
| 0 | Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi | 124 |
| **0** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **124** |

## NODYN 17 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyd-Bwyllgor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| 2020/21 | | 2021/22 |
|---|---|---|
| **£'000** | **Gwariant / Incwm** | **£'000** |
| | **Gwariant** | |
| 611 | Gwariant buddion gweithwyr | 1,435 |
| 17 | Eiddo | 17 |
| 0 | Cludiant | 0 |
| 368 | Gwasanaeth a Chyflenwadau | 1,117 |
| 90 | Trydydd Parti | 135 |
| 0 | Taliadau llog | 3 |
| 0 | Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad | 124 |
| **1,086** | **Cyfanswm Gwariant** | **2,831** |
| | **Incwm** | |
| (640) | Cyfraniadau Partneriaid | (1,318) |
| (7) | Incwm llog a buddsoddi | (16) |
| (680) | Grantiau a chyfraniadau eraill | (1,997) |
| **(1,327)** | **Cyfanswm Incwm** | **(3,331)** |
| **(241)** | **(Gweddill) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(500)** |

## NODYN 18 – TALIADAU I SWYDDOGION

**18a.** Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru:

| 2020/21 | | | Uwch Swyddogion | 2021/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflog £** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr £** | **Cyfanswm £** | | **Cyflog £** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr £** | **Cyfanswm £** |
| 103,179 | 21,049 | **124,228** | Cyfarwyddwr Portffolio | 107,899 | 22,011 | **129,910** |
| 58,624 | 11,959 | **70,583** | Pennaeth Gweithrediadau | 61,710 | 12,845 | **74,555** |

**18b.** Yn 2021/22 a 2020/21, ni dderbyniodd unrhyw weithiwr arall mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr).

## NODYN 19 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2020/21 | | 2021/22 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 2 | Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 11 |
| **2** | **Ffioedd Net** | **11** |

## NODYN 20 – INCWM GRANT

**20a.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2020/21 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | | | | |
| Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd | 561 | | 808 | |
| Grant Datgarboneiddio | 67 | | 500 | |
| Grant Fframwaith Economaidd Rhanbarth Gogledd Cymru | 0 | | 195 | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | 0 | | 124 | |
| Arall | 52 | | 15 | |
| | | **680** | | **1,642** |
| **Grantiau a Chyfraniadau eraill** | | | | |
| Cyfraniadau'r Partneriaid | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 90 | | 168 | |
| Cyngor Sir Ddinbych | 90 | | 154 | |
| Cyngor Sir y Fflint | 90 | | 194 | |
| Cyngor Gwynedd | 90 | | 172 | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 90 | | 137 | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 90 | | 181 | |
| Prifysgol Bangor | 25 | | 118 | |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 25 | | 59 | |
| Coleg Cambria | 25 | | 60 | |
| Grŵp Llandrillo Menai | 25 | | 75 | |
| | | **640** | | **1,318** |
| **Cronfa Adfwyio Cymunedol** | | | | |
| Cyngor Sir Ddinbych | 0 | | 34 | |
| Cyngor Gwynedd | 0 | | 34 | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 0 | | 34 | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0 | | 34 | |
| | | **0** | | **136** |
| **Cyngor Gwynedd (Grant Bargen Twf Gogledd Cymru)** | | **0** | | **219** |
| **Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | **1,320** | | **3,315** |

Mae'r Grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn cael ei ariannu 50% gan Llywodraeth Cymru a 50% gan Llywodraeth y DU.

## 20 – INCWM GRANT (parhad)

**20b.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw** | | |
| **Grantiau Cyfalaf** | | |
| **Tymor Byr** | | |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 16,000 | 29,000 |
| **Tymor Hir** | | |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 0 | 7,103 |
| **Cyfanswm** | **16,000** | **36,103** |

## NODYN 21 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

### Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ar 1 Chwefror 2019 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Cyd-Bwyllgor hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Cyd-Bwyllgor gytuno ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan sicrhau buddsoddiad o £240miliwn i economi Gogledd Cymru fel rhan o'r cytundeb. Mae Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf a chymeradwywyd achos busnes y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a bellach mae'n cael ei gyflawni. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyd-Bwyllgor, ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol ynghyd â darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau. Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn 17 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 20.

Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor, yr Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer y BUEGC.

| | Taliadau a wnaethpwyd | Incwm a dderbyniwyd | Symiau sy'n ddyledus i'r BUEGC | Symiau sy'n ddyledus gan BUEGC |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 32 | (168) | (6) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 38 | (178) | (10) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | 0 | (194) | 0 | 0 |
| Cyngor Gwynedd | 220 | (442) | 0 | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 0 | (137) | (34) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0 | (181) | (34) | 0 |
| Prifysgol Bangor | 0 | (118) | 0 | 124 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 0 | (59) | 0 | 0 |
| Coleg Cambria | 0 | (25) | (35) | 0 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 0 | (75) | 0 | 0 |

### Aelodau Bwrdd, Ymgynghorwyr a Swyddogion

Mae gan aelodau ac ymgynghorwyr y Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae holl Aelodau'r Bwrdd, Ymgynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyd-Bwyllgor wedi cwblhau ffurflenni datganiad i ddatgan eu diddordeb neu eu perthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyd-Bwyllgor. Nid oes angen datganiadau pellach na'r rhai a gynhwysir yn y tabl uchod.

## NODYN 22 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

| **31 Mawrth 2021 £'000** | | **31 Mawrth 2022 £'000** |
|---:|---|---:|
| 0 | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf (Nodyn 14.1) | 0 |
| **0** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **0** |

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

| **2020/21 £'000** | | **2021/22 £'000** |
|---:|---|---:|
| **0** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill** | **0** |
| 0 | Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud | 124 |
| 0 | Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (124) |
| **0** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth** | **0** |

## NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2021/22 na 2020/21.

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae BUEGC yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwyso'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| **Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net** | **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2022** | | |
|---|---|---|---|
| | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau) /asedau net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 883 | 0 | 883 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu Hariannu | 0 | (1,774) | (1,774) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu Hariannu | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **883** | **(1,774)** | **(891)** |
| Cost Gwasanaeth | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | (410) | (410) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(410)** | **(410)** |
| Llog Net | | | |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 20 | 0 | 20 |
| Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad | 0 | (23) | (23) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **20** | **(23)** | **(3)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **20** | **(433)** | **(413)** |
| Llif Arian | | | |
| Cyfraniadau aelodau'r cynllun | 60 | (60) | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 159 | 0 | 159 |
| Amcangyfrif cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu | 0 | 0 | 0 |
| Amcangyfrif buddion a dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| Amcangyfrif buddion heb eu hariannu a dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau a Ddisgwylir** | **1,122** | **(2,267)** | **(1,145)** |
| Ail Fesuriadau | | | |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | 0 | 15 | 15 |
| Newid mewn tybiaethau ariannol | 0 | 202 | 202 |
| Profiadau Eraill | 0 | (84) | (84) |
| Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 70 | 0 | 70 |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **70** | **133** | **203** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 1,192 | 0 | 1,192 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (2,134) | (2,134) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **1,192** | **(2,134)** | **(942)** |

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau BUEGC ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2021. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2.734bn ar 31 Mawrth 2022, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond elfen o'r Gronfa sydd yn berthnasol i'r BUEGC.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

| Categori Ased | Ar 31 Mawrth 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | |
| Y cyfan | 0 | 67 | 67 | 6 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | |
| Eiddo y DU | 0 | 102 | 102 | 9 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | |
| Ecwiti | 0 | 758 | 758 | 63 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 23 | 23 | 2 |
| Eraill | 0 | 238 | 238 | 20 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | | | | |
| Y cyfan | 4 | 0 | 4 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **1,188** | **1,192** | **100** |

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.5% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** |
| Cyfradd Codiad Pensiynau | 3.15 |
| Cyfradd Codiad Cyflogau | 3.45 |
| Cyfradd Chwyddiant | 3.15 |
| Cyfradd Ddisgownt | 2.75 |
| Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau | 2.75 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol | |
| Dynion | 21.3 |
| Merched | 23.7 |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol | |
| Dynion | 22.4 |
| Merched | 25.7 |

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2022 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2022** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2022** |
| | % | £'000 |
| 0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 3 | 55 |
| Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4 | 85 |
| 0.1% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog | 1 | 27 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn | 1 | 55 |

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwyliad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

### Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2022 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2022** | |
|---|---|---|
| | **£'000** | % |
| Aelodau Gweithredol | 2,116 | 99.2 |
| Aelodau Gohiriedig | 18 | 0.8 |
| Aelodau Pensiynwyr | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **2,134** | **100.0** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig. nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019. Cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 30 mlynedd, 2021/22.

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £159k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2023.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £2,666 yn 2021/22, i ddod a'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion

## NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy’n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinnir yn y Fantolen.

## NODYN 25 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o’r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mehefin 2022. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi’u cynnwys yn y datganiadau ariannol na’r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2022, mae’r ffigyrau yn y datganiadau a’r nodiadau ariannol wedi’u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith.

## Geirfa

**Ariannu Cyfalaf** - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

**Ased** - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyd-Bwyllgor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Cost Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyd-bwyllgor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan gyfraniadau partneriaid a grantiau'r Llywodraeth.

**Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig** - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Dibrisio** – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

Eitem 7

# Cynllun Archwilio 2022 – Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2993A2022-23

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â'r ddogfen hon 4

Fy nyletswyddau 4

Effaith COVID-19 4

Archwiliad o'r datganiadau ariannol 4

Archwiliad o berfformiad 6

Swyddogaethau archwilio statudol 7

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 8

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau dan y Cod Ymarfer Archwilio.

# Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol.

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

3 Er bod Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor) wedi bod yn paratoi Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgorau Llai yn flaenorol, hon fydd y flwyddyn gyntaf i'r Cyd-bwyllgor baratoi datganiadau ariannol llawn. Byddwn yn archwilio'r datganiadau ariannol i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus.

## Gwerth am arian

4 Rhaid i'r Cyd-bwyllgor sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio a rhaid i mi fod wedi fy argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

# Effaith COVID-19

5 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus.

6 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 o ran y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru'n parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

# Archwiliad o'r datganiadau ariannol

7 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022; ac
- asesiad pa un a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyd-bwyllgor wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a pha un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Cyd-bwyllgor.

8 Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor, mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os yw'n angenrheidiol).

9 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Cyd-bwyllgor cyn cwblhau'r archwiliad.

10 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (sef lefel perthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.

11 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

12 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

## Risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

13 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u hadnabod ar gyfer yr archwiliad o'r Cyd-bwyllgor.

**Arddangosyn 1: risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol a adnabuwyd adeg cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| | arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. |
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| Gan y bydd y Cyd-bwyllgor yn paratoi datganiadau ariannol llawn am y tro cyntaf, maent yn eu hanfod yn fwy tueddol o gynnwys camddatganiadau perthnasol. Ceir mwy o risg hefyd nad ydynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 (y Cod). | Byddwn yn gweithio gyda'ch tîm i drafod y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer incwm, gwariant a balansau eraill, gan gynnwys cyfraniadau gan gyrff cyfansoddol. Byddwn hefyd:<br>• yn gwirio balansau a datgeliadau mewn blynyddoedd blaenorol;<br>• yn cynnal profion archwilio manwl ar incwm a gwariant a balansau eraill; ac<br>• yn sicrhau bod y datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cod. |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu codi erbyn hyn, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff ac o ran gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon. Ceir risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol, e.e. o ran amcangyfrifon, gael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion o ran amseru a/neu argaeledd adnoddau**.** | Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau. |

## Archwilio perfformiad

14 Yn ychwanegol at fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel a nodir ar **dudalen 4** mewn perthynas â gwerth am arian.

15 Mewn ymateb i'r pandemig, fe fabwysiedais ddull hyblyg o wneud fy ngwaith archwilio perfformiad o ran cynnwys y gwaith a'r fethodoleg. Fe wnaeth hyn fy ngalluogi i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym a darparu mwy o adborth mewn amser real mewn ystod o fformatau.

16 Rydym hefyd yn deall y gallai cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 effeithio ar y strwythur sefydliadol a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at beth gwaith archwilio ychwanegol ar unrhyw drefniadau newydd a gyflwynir. Os digwydd hyn, byddaf yn trafod unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer ffioedd gyda'r Cyd-bwyllgor.

**Arddangosyn 2: rhaglen archwilio perfformiad 2022-23**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Asesiad Sicrwydd a Risg | Prosiect i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu ble y gall fod yn ofynnol gwneud gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyd-bwyllgor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau.<br>Eleni mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar yr amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad ac argaeledd yr wybodaeth honno a sut y mae'r Cyd-bwyllgor yn ei defnyddio i'w sicrhau ei hun ei fod yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ac yn cyflawni gwerth am arian yn ei holl weithgareddau. |

# Swyddogaethau archwilio statudol

17 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu nodi yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

18 Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud lwfans yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Ffi, tîm archwilio ac amserlen

19 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y byddir yn cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
- mae gwybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen 'Dogfennaeth i'w Chyflwyno ar gyfer Archwilio' y cytunwyd arni;
- darperir ystafell a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
- mae rhaglen waith arfaethedig y tîm Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

20 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

### Ffi

21 Fel a nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae cyfraddau ein ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus yn ansawdd ein gwaith archwilio ac mewn ymateb i bwysau cynyddol o ran costau.

22 Caiff y ffi a amcangyfrifir ar gyfer 2022 ei nodi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 3: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
| --- | ---: | ---: |
| Archwiliad o'r cyfrifon [2] | 12,239 | 1,800 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 10,500 | 0 |
| **Cyfanswm y ffi** | **22,739** | **1,800** |

23 Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio ac felly fy ffi yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Cyd-bwyllgor yn gyntaf.

24 Ceir rhagor o wybodaeth yn fy Nghynllun Ffioedd 2022-23.

## Tîm archwilio

25 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
| --- | --- | --- | --- |
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 029 2032 0663 | matthew.edwards@archwilio.cymru |

[1] Nodiadau: Mae'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn gyfyngedig i TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Hydref 2022.

[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 2267 7830 | yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| Jeremy Evans | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 07825 052861 | jeremy.evans@archwilio.cymru |
| Sioned Owen | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 2082 9338 | sioned.owen@archwilio.cymru |
| Alan Hughes | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 2082 9349 | alan.hughes@archwilio.cymru |

26 Ceir rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio sy'n gydnabod i aelod o Grŵp Gweithredol y Cyd-bwyllgor. Nid yw gwaith y Rheolwr Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol cael unrhyw gyswllt uniongyrchol â'r aelod y tu allan i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, a bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli. Ac eithrio hyn, gallaf gadarnhau bod holl aelodau eraill fy nhîm yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor.

## Amserlen

27 Caiff y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn eu dangos yn **Arddangosyn 5**.

28 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau ynghylch cyfrifon y Cyd-bwyllgor a chyflwyno gwrthwynebiadau iddynt i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i edrych ar y cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004.

**Arddangosyn 5: Amserlen archwilio**

| Allbwn arfaethedig | Gwneud y gwaith | Cwblhau'r adroddiad |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio 2022 | Ebrill – Mai 2022 | Mehefin 2022 |
| **Gwaith archwilio'r Datganiadau Ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf – Awst 2022 | Hydref 2022 |
| **Gwaith archwilio perfformiad:**<br>• Asesiad Sicrwydd a Risg | Bydd graddfeydd amser ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Cyd-bwyllgor a'u nodi o fewn briff prosiect penodol. | |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.